

CYFADRAN GWASANAETHAU ADDYSG A CHYNHWYSIANT
RHONDDA CYNON TAF

# Cynllun Strategol ar gyfer 2022-2025

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg
This document is available in English

RHONDDA CYNON TAF

# Cynnwys





| Section | | Page Number |
|---|---|---|
| 1. | Rhagair gan Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant | 3 |
| 2. | Cyflwyniad | 4 |
| 3. | Ein Cyd-destun Lleol | 6 |
| 4. | Y Dirwedd Addysgol Newidiol | 8 |
| 5. | Ein Cyflawniadau Allweddol rhwng mis Mawrth 2020 a mis Gorffennaf 2021 | 12 |
| 6. | Ein Cenhadaeth ni | 18 |
| 7. | Ein Gweledigaeth ni | 18 |
| 8. | Ein Blaenoriaethau Strategol ni<br>• **Blaenoriaeth Strategol 1:** Datblygu gweithlu addysgol sy'n hynod fedrus,  ac arweinwyr sy'n rhagorol ar bob lefel<br>• **Blaenoriaeth Strategol 2:** Rhoi cymorth i ysgolion i ddarparu cwricwlwm trawsnewidiol, darpariaeth ddysgu ac addysgu o safon uchel a deilliannau gwell i bawb<br>• **Blaenoriaeth Strategol 3:**  Sicrhau tegwch a chymorth i ddisgyblion sy'n agored i niwed a'u teuluoedd<br>• **Blaenoriaeth Strategol 4:** Gwella lles ein disgyblion a'r gweithlu.<br>• **Blaenoriaeth Strategol 5:** Cyflwyno amgylcheddau dysgu a gwasanaethau arloesol sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif ar gyfer ein disgyblion a'n cymunedau | 19 |
| 9. | Sut byddwn ni'n mynd ati i wireddu ein blaenoriaethau? | 26 |
| 10. | Sut byddwn ni'n mynd ati i fesur ein llwyddiant ni? | 27 |
| 11. | Casgliad | 28 |

# Adran 1: Rhagair

Yn fwy nag erioed o'r blaen, mae angen cenhadaeth a gweledigaeth glir a newydd ar y Gwasanaeth Addysg a Chynhwysiant ac ar ysgolion Rhondda Cynon Taf, wrth i ni 'adnewyddu' a 'diwygio' a mynd i'r afael ag effaith y pandemig ar ein cymunedau.

Mae'r pandemig wedi taflu goleuni ar y rhan hanfodol ac amhrisiadwy y mae ein hysgolion yn ei chwarae wrth gefnogi'n disgyblion, eu teuluoedd, a'n cymunedau ehangach. Mae'n gweithlu ni wedi gweithio'n ddiflino ac yn greadigol trwy gydol cyfnod y pandemig i gadw'n disgyblion a'n staff ni'n ddiogel, trwy gynnal parhad yn y dysgu, a rhoi cymorth i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ystod cyfnod o her ddigynsail. Mae ysgolion ac adrannau'r Cyngor wedi cydweithio i ddangos sut y mae modd gweithio ynghyd i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau'r disgyblion a'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu. Mae disgyblion a'u teuluoedd hefyd wedi dangos gwytnwch a dyfalbarhad wrth addasu i effaith y pandemig, gan ddod i arfer â ffyrdd newydd o gael mynediad at addysg a chymorth gyda'u lles. Mae disgyblion wedi ennill cymwysterau trwy brosesau gradd newydd sydd wedi'u hasesu a'u pennu yn y ganolfan. Daeth heriau anochel law yn llaw â'r newidiadau yma, ond roedd y gweithlu addysgol wedi rhoi cymorth amhrisiadwy gan roi sylw i rwystrau dysgu a mynd i'r afael â nhw mewn ffordd ragweithiol, yn ogystal â sicrhau bod disgyblion yn parhau i wneud cynnydd. Serch hynny, rydyn ni'n gwybod bod rhai disgyblion a theuluoedd wedi cael eu heffeithio'n fwy nag eraill, ac mae'n hanfodol bod y disgyblion yma'n cael y cymorth cywir i sicrhau eu bod nhw'n gwneud cynnydd ac yn ymgysylltu yn ystod y cam nesaf yma o adfer.

Mae oes newydd a chyffrous bellach o'n blaenau ni, wrth i ysgolion baratoi a gweithredu cynlluniau trawsnewidiol ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysgol (2018). Mae gwella lles i bawb, sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd a chau'r bwlch rhwng deilliannau ein disgyblion mwyaf a lleiaf difreintiedig ac agored i niwed, yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel ar gyfer gwella. Byddwn ni'n gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod ein disgyblion ni'n cael mynediad at y cyfleoedd gorau posibl yn gynnar, a thrwy gydol eu haddysg ffurfiol a thu hwnt. Rydyn ni'n dal i fod yn uchelgeisiol iawn o ran ein disgyblion, ac mae'r strategaeth yma'n amlinellu'r weledigaeth rydyn ni'n ei rhannu, a'r camau allweddol y byddwn ni'n eu cymryd gyda'n gilydd i sicrhau bod hyn yn cael ei wireddu.

| | |
|---|---|
|  | Y Cynghorydd Jill Bonetto<br>Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant |
|  | Gaynor Davies<br>Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant |
|  | Simon Roberts<br>Cadeirydd Cymdeithas Penaethiaid Cynradd |
|  | Justin O'Sullivan<br>Cadeirydd Cymdeithas Penaethiaid Uwchradd |
|  | David Jenkins<br>Cadeirydd Cymdeithas Penaethiaid Ysgol Arbennig/Uned Atgyfeirio Disgyblion |

## Adran 2:  Cyflwyniad

Yn Gyfarwyddiaeth Addysg, ein pwrpas craidd yw sicrhau bod gan bob disgybl yn Rhondda Cynon Taf fynediad i ysgolion rhagorol a phrofiadau addysgol cadarnhaol a chyfoethog, sy'n eu galluogi nhw i gyflawni'r deilliannau gorau posibl yn unol â'u gallu. Mae'r Cynllun Strategol yma ar gyfer 2022-2025 yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant am y 3 blynedd nesaf, gan amlinellu ei chenhadaeth, ei gweledigaeth a'i huchelgais ar gyfer ein hysgolion yn Rhondda Cynon Taf.

Ein cenhadaeth yn syml yw: **'Cyflawni tegwch a rhagoriaeth mewn Addysg a llesiant gwell i bawb '.** Mae partneriaethau cadarn wedi ffurfio rhwng yr awdurdod lleol, lleoliadau nas cynhelir, ysgolion ac unedau atgyfeirio disgyblion trwy gydol y pandemig. Mae'r partneriaethau yma'n gadarn gyda phob un yn rhannu'r un penderfyniad a'r un nod sef sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad i brofiadau dysgu ac addysgu o'r ansawdd uchaf, fel bod modd iddyn nhw wneud cynnydd a thyfu i fod yn ddysgwyr gydol oes. Mae'n dyheadau ni ar gyfer ein disgyblion wedi aros yn gyson uchel er gwaethaf yr heriau rydyn ni wedi eu hwynebu. Mae gan ein plant ni'r hawl i addysg o'r radd flaenaf a fydd yn eu galluogi nhw i wireddu eu huchelgeisiau.

Cydnabyddir y ffaith bod y pandemig wedi rhoi pwysau aruthrol ar y system addysg. Mae e wedi effeithio ar iechyd a lles ein disgyblion, ein gweithlu a'n cymunedau. Mae effaith economaidd, cymdeithasol ac emosiynol COVID-19 wedi bod yn fawr, ac rydyn ni wedi gweld twf sylweddol yn nifer y teuluoedd sy'n byw mewn tlodi. Rydyn ni'n gwybod bod modd i amddifadedd achosi anghydraddoldebau, ac mae rhai teuluoedd wedi wynebu sawl profiad niweidiol, gan gynnwys caledi ariannol, profedigaeth, colled, trawma, iechyd gwael yn feddyliol ac yn gorfforol. Ymysg y disgyblion sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf o gau ysgolion a chyfyngiadau eraill, mae sgiliau sylfaenol, dysgu, lles a phresenoldeb wedi dirywio, ac mae'n hanfodol ein bod ni nawr yn canolbwyntio ar wella cynnydd disgyblion, eu hiechyd meddwl a'u lles. Gwella presenoldeb yw un o'n prif flaenoriaethau ni, a hynny yn erbyn y pryder parhaus ynghylch trosglwyddo COVID-19 yn ein cymunedau.

Trwy gydol y pandemig, mae ymrwymiad ein hysgolion ni i sicrhau bod addysg yn parhau a bod anghenion lles cymunedau'n hysgolion ni'n parhau i gael eu diwallu, wedi bod yn ddiflino ac wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau plant, pobl ifainc a'u teuluoedd. Mae hyn wedi cael ei gyflawni o ganlyniad i waith caled a chydweithio rhagorol yn yr ysgolion, adrannau'r awdurdod lleol, a'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol. Mae ymdeimlad o 'un garfan' yn tynnu ynghyd i gyflawni'r blaenoriaethau rydyn ni'n eu rhannu, wedi aros yn gryf. Bydd sylfeini'r partneriaethau cadarn yma o fantais fawr i ni wrth i ni symud i'r cam nesaf sef adnewyddu a diwygio, ac wrth symud tuag at ddyfodol mwy disglair ac optimistaidd i'n disgyblion a'n cymunedau.

Byddwn ni'n cyflawni'n cenhadaeth trwy wireddu'n gweledigaeth, sef: **'Ysbrydoli a bod yn gefn i arweinyddiaeth ac ymarfer proffesiynol rhagorol, fel bod pob disgybl yn Rhondda Cynon Taf yn gwneud cynnydd da ac yn tyfu'n unigolyn uchelgeisiol,**

**galluog, creadigol ac sy'n wybodus yn foesegol'.** Mae arweinyddiaeth ac ymarfer proffesiynol rhagorol yn hanfodol i sicrhau ein bod ni'n creu diwylliant effeithiol o degwch, rhagoriaeth a disgwyliadauu uchel yn y maes addysg, fel bod modd i ni sicrhau llwyddiant pob ysgol a disgybl ledled y Fwrdeistref Sirol.

Mae amgylchedd ariannol y Cyngor, y sector cyhoeddus ehangach ac amgylchedd ariannol trigolion yn parhau i fod yn heriol. Mae angen i ni sicrhau ein bod ni'n buddsoddi yn ein blaenoriaethau, ac yn defnyddio ymchwil i lywio penderfyniadau gwybodus am y strategaethau a'r dulliau effaith uchel mwyaf priodol y mae angen eu mabwysiadu. Rhaid i'n polisïau gael effaith gadarnhaol ar y rhai sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol a grwpiau sy'n agored i niwed.

Mae anghydraddoldebau mewn addysg wedi gwaethygu oherwydd y pandemig. Gyda'n gilydd mae angen i ni fynd i'r afael a'u heffaith ar addysg a sicrhau bod polisïau cyllido ac addysgeg yn cefnogi cynnydd a datblygiad pob disgybl, gan gynnwys y grwpiau mwyaf agored i niwed. Mae'n dra phwysig sicrhau bod pob disgybl yn mynd i'r ysgol yn rheolaidd.

Mae'r tarfu sydd wedi bod ar ddysgu ac ar ryngweithio a phrofiadau cymdeithasol wedi effeithio ar iechyd a lles corfforol a meddyliol rhai disgyblion, yn ogystal â'r staff sy'n rhoi cymorth iddyn nhw. Mae'r cynllun yma'n ailddatgan ein hymrwymiad i les ac iechyd meddwl disgyblion a staff, a pha mor bwysig yw hi i sicrhau bod anghenion emosiynol pawb yn cael cymorth priodol.

Mae pontio didrafferth o un cyfnod addysg i'r llall yn bwysig os yw disgyblion eisiau ffynnu a chyflawni'r deilliannau gorau posibl. Mae'r blynyddoedd cynnar yn faes allweddol i'w ddatblygu gan ei fod yn darparu llwyfan ar gyfer adeiladu a dysgu yn y dyfodol. Mae'n bwysig bod disgyblion yn dechrau'r ysgol gyda'r sgiliau rhagofynnol angenrheidiol i wneud y cynnydd disgwyliedig, gan y bydd hyn yn effeithio ar eu profiadau addysgol yn y dyfodol. Bydd darparu ymyrraeth effeithiol yn y blynyddoedd cynnar a sicrhau darpariaeth ac ymyrraeth o ansawdd uchel ar gyfer y disgyblion mwyaf agored i niwed a difreintiedig yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol, er mwyn codi safonau addysgol, gwella presenoldeb a chau'r bwlch o ran cyrhaeddiad. Mae angen cymorth penodol ar ddisgyblion a fydd yn sefyll arholiadau pwysig yn ystod y flwyddyn academaidd i sicrhau eu bod nhw'n cyflawni eu nodau, ac yn symud ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth, prentisiaethau neu hyfforddiant.

A ninnau'n Gyngor, byddwn ni'n parhau i fuddsoddi yn ein hysgolion yn rhan o'n Cynllun Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif a'n Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf, fel bod gan ein disgyblion ni fynediad i amgylcheddau dysgu ysgogol a fydd yn eu paratoi'n ddigonol ar gyfer bywyd mewn cymdeithas sydd wedi'i chysylltu'n ddigidol ac sy'n esblygu'n gyflym. Mae angen cwricwlwm trawsnewidiol ar ein disgyblion a fydd yn datblygu eu priodoleddau, eu sgiliau a'u gwybodaeth fel eu bod nhw'n tyfu'n unigolion uchelgeisiol, galluog, hyderus a gwybodus yn foesegol.

Mae'n siwr y byddwn ni'n wynebu heriau wrth i ni 'adnewyddu' a 'diwygio', a gyda'n gilydd byddwn ni'n ymateb iddyn nhw ac yn sicrhau ein bod ni'n cyflawni'r blaenoriaethau a luniwyd ar y cyd ar gyfer 2022-2025.

## Adran 3: Ein Cyd-destun Lleol

Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2021-24 yn cael ei lywio gan y weledigaeth i Rondda Cynon Taf "fod y lle gorau yng Nghymru i fyw, gweithio a chwarae ynddo, lle mae pobl a busnesau yn annibynnol, yn iach ac yn llewyrchus."

Ei brif bwrpas yw: "**Darparu arweinyddiaeth gref yn y gymuned a chreu amgylchedd lle mae modd i bobl a busnesau fod yn annibynnol, yn iach ac yn llewyrchus"**.

Mae'r Cynllun Corfforaethol cyfredol yn canolbwyntio ar dair blaenoriaeth allweddol:

1. Sicrhau bod Pobl: yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus;
2. Creu Lleoedd: y mae pobl yn falch o gael byw, gweithio a chwarae ynddyn nhw;
3. Galluogi Ffyniant: i greu'r cyfle i bobl a busnesau i
   fod yn arloesol; yn entrepreneuraidd; cyflawni eu potensial a ffynnu.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi gweledigaeth, blaenoriaethau ac egwyddorion sy'n parhau i gynyddu cyfraniad y Cyngor i'r saith nod llesiant cenedlaethol sydd wedi'u hamlinellu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn gofyn bod pob corff cyhoeddus yng Nghymru yn meddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a gyda'i gilydd, ac i atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. Bydd y nodau cenedlaethol yma, ynghyd â'r pum Ffordd o Weithio, yn parhau i gael eu hymgorffori yn y cynlluniau gweithredu manwl a fydd yn cyflawni tair blaenoriaeth y Cyngor. Bydd Cynllun Strategol y Gyfarwyddiaeth Addysg yn adlewyrchu'r blaenoriaethau trosfwaol yma, a bydd y Cynlluniau Corfforaethol, Cynlluniau'r Gyfarwyddiaeth a Chynlluniau'r Gwasanaeth i gyd yn rhedeg ochr yn ochr i sicrhau bod datblygiadau strategol yn alinio.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn rhoi pwyslais pwysig ar yr agenda newid yn yr hinsawdd ac yn tynnu sylw at uchelgais y Cyngor i fod yn 'Gyngor Nwy Tŷ Gwydr sero-net erbyn 2050', i fodloni argymhelliad Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd. Mae moderneiddio adeiladau'n hysgolion ni a sicrhau eu bod nhw'n ynni effeithlon yn parhau i fod yn flaenoriaeth, ac mae'r gefnogaeth i'n rhaglen Ysgolion yr 21ainGanrif ni'n rhagorol, felly hefyd y gefnogaeth i gyflawni'n Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn effeithiol. Mae amlen ariannu Band B a gymeradwywyd dros dro gan Lywodraeth Cymru yn cyfateb i £252 miliwn, a bydd y buddsoddiad yma'n adeiladu ar y gwaith rhagorol a gyflawnwyd yn rhan o ddatblygiadau Band A.

Mae ymyrraeth gynnar effeithiol a dulliau ataliol yn ganolog i'r Cynllun Corfforaethol fel ein bod ni'n goresgyn y rhwystrau sy'n gysylltiedig yn aml â rheiny dan anfantais, a'n bod ni'n osgoi'r angen i gynnwys gwasanaethau statudol. Mae ffocws clir ar ddarparu'r gefnogaeth gywir ar yr adeg iawn yn hanfodol os ydyn ni am roi'r dechrau a'r cyfleoedd gorau mewn bywyd i'n plant. Mae yna gydnabyddiaeth Gorfforaethol bod dysgu'n digwydd yn y cartref ac mewn lleoliad addysgol, ac mae ymgysylltiad effeithiol â rhieni a chefnogaeth o ansawdd uchel yn y blynyddoedd cynnar yn hanfodol i baratoi'n disgyblion

i fod yn barod ar gyfer addysg statudol. Mae'r angen yma wedi dwysáu yn sgil y pandemig. Yn wir, mae nifer fawr o ddisgyblion wedi colli allan ar gyfleoedd amhrisiadwy yn ystod y cyfnod heriol yma, gan gynnwys dysgu cynnar, chwarae a rhyngweithio cymdeithasol. Mae sicrhau bod rhieni/cynhalwyr (gofalwyr) yn ymgysylltu â dysgu eu plant a gwasanaethau'r brif ffrwd yn hollbwysig os ydy plant i gyrraedd eu llawn dwf.

Mae dyletswydd ar ein hysgolion a'r Gyfarwyddiaeth Addysg i sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu hystyried ym mhopeth a wnawn a bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Mae'n hanfodol rhoi ffocws clir ar wella ysgolion a gwasanaethau er mwyn sicrhau bod gan ein disgyblion fynediad at ddysgu ac addysgu o'r ansawdd uchaf, ac at wasanaethau arbenigol i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r broses barhaus o wella ysgolion a gwasanaethau yn hanfodol bwysig, ac mae gwaith Consortiwm Canolbarth y De (CSC), sef y Gwasanaeth Gwella Ysgolion sydd wedi'i gomisiynu, yn allweddol i sicrhau bod gyda ni system hunan-wella ar draws y pum awdurdod lleol y mae'n eu cynrychioli.

Byddwn ni'n ceisio adborth rhanddeiliaid yn fater o drefn, er mwyn sicrhau ein bod ni'n darparu gwasanaethau sy'n addas i'r diben ac yn diwallu anghenion ein disgyblion, ein hysgolion a'r gymuned ehangach. Bydd pwysigrwydd partneriaethau cymdeithasol wrth gasglu adborth yn parhau i lywio datblygiadau strategol er mwyn inni sicrhau gwasanaeth a gwella ysgolion yn barhaus, a gweithio ar y cyd yn effeithiol. Mae cau'r bwlch cyrhaeddiad sy'n bodoli ymysg grwpiau o blant sy'n agored i niwed yn flaenoriaeth strategol gorfforaethol bwysig, fel bod pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd â'r anghenion dysgu ac anableddau ychwanegol mwyaf cymhleth, yn cyflawni'u potensial. Bydd cyflwyno cwricwlwm trawsnewidiol mewn ysgolion ac unedau atgyfeirio disgyblion yn rhoi'r cyfle gorau posibl i'n disgyblion ni i gyflawni eu potensial a throsglwyddo i addysg bellach, cyflogaeth, hyfforddiant neu brentisiaethau pan fyddan nhw'n gadael yr ysgol. Bydd darparu cyfleoedd addysgol o'r radd flaenaf yn hanfodol i dorri'r cylch tlodi sy'n bodoli yn rhai o'n cymunedau.

Mae poblogaeth Rhondda Cynon Taf yn parhau i dyfu ac ar adeg ysgrifennu mae ganddi boblogaeth o 241,873. O ran poblogaeth, dyma'r trydydd awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru, ond mae lefelau cyflogaeth Rhondda Cynon Taf yn is na chyfartaledd Cymru, gyda 67.3% o'r boblogaeth (oed 16+) mewn cyflogaeth o'i chymharu â 72.8% ledled Cymru. Mae 18.6% o'r boblogaeth yn 0-15 oed (17.8% yng Nghymru). Mae'r twf yn nifer y disgyblion ledled y Fwrdeistref Sirol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi bod yn sylweddol ac mae oddeutu un o bob pedwar disgybl (25.72%, Ebrill 2021) bellach yn gymwys, sy'n adlewyrchu effaith economaidd sylweddol y pandemig ar ein cymunedau.

Cyn y pandemig, roedd gwella presenoldeb a lleihau gwaharddiadau yn flaenoriaethau ar gyfer gwella ac mae hyn yn parhau i fod yn wir. Mae'n hanfodol sicrhau gwelliannau sylweddol o ran ymgysylltu a phresenoldeb, yn enwedig ar adeg pan fo pryder sy'n ymwneud â'r firws COVID-19 yn parhau i fod yn uchel. Mae angen strategaethau ar ysgolion i sicrhau presenoldeb da ac i wella patrymau ymddygiad trwy ddatblygu dulliau ysgol gyfan, grŵp a dulliau wedi'u targedu sy'n hynod effeithiol. Er mwyn gwella gallu ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed i ddiwallu anghenion disgyblion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol sylweddol, mae buddsoddiad ychwanegol gwerth £1.1 miliwn wedi'i wneud i gryfhau continwwm y ddarpariaeth a'r cyfleoedd dysgu pwrpasol sy'n bodoli ar gyfer y bobl ifainc sydd yn ymgysylltu lleiaf. Mae’r buddsoddiad

yma wedi bod yn allweddol i gefnogi cynhwysiant prif ffrwd ar gyfer rhai o'n disgyblion mwyaf difreintiedig, gan leihau achlysuron o waharddiad tymor penodol a'r galw am leoliadau yn yr uned atgyfeirio disgyblion arbenigol, sy'n fwy costus.

Yn ogystal â'r buddsoddiad yma, mae'r Cabinet wedi cefnogi cyllido swyddogion ymgysylltu â theuluoedd ymysg rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae'r rolau yma o ymgysylltu â theuluoedd yn gwella cyfleoedd ysgolion i ymgysylltu â theuluoedd y tu hwnt i giât yr ysgol, gan hyrwyddo gweithio amlasiantaethol a mynediad at gymorth teulu amserol i oresgyn caledi ac unrhyw rwystrau sydd i ddysgu ac ymgysylltu. Mae tystiolaeth ymchwil yn tynnu sylw at y ffaith mai cynnwys y teulu yn addysg plentyn yw un o'r prif ffyrdd o ragfynegi ei lwyddiant yn yr ysgol. Mae'n nodi hefyd bod teuluoedd yn chwarae rhan ganolog yn natblygiad gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol eu plant, o'u genedigaeth nes iddyn nhw gyrraedd y glasoed. Serch hynny, mae angen cymorth ar lawer o deuluoedd i fod yn fwy cadarn, ac i oresgyn yr holl ffactorau sy'n achosi straen yn sgil caledi ariannol. Byddai hynny'n golygu y bydden nhw mewn sefyllfa well i gynorthwyo â dysgu ac ymgysylltiad eu plentyn mewn addysg. Bydd gweithio mewn partneriaeth gref ar draws adrannau'r Cyngor, ysgolion a theuluoedd yn hanfodol os ydyn ni am gyflawni gwelliannau cynaliadwy yng neilliannau disgyblion.

Caiff ffyniant economaidd, cydlyniant cymdeithasol a lles eu hadeiladu ar sylfeini ysgolion ac addysg ragorol. Bydd cyflawni'n Cynlluniau Strategol Corfforaethol ac Addysg ni'n hanfodol i wella cyfleoedd bywyd a ffyniant cenedlaethau o blant a phobl ifainc presennol Rhondda Cynon Taf yn ogystal â chenedlaethau o blant a phobl ifanc yn y dyfodol.

## Adran 4: Y Dirwedd Addysgol Newidiol

Mae'r dirwedd addysgol yn newid yn sylweddol, a bydd cwricwlwm newydd ar gyfer ysgolion a lleoliadau nas cynhelir yng Nghymru o fis Medi 2022. Mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi'i lunio ar sail ymchwil a thystiolaeth ryngwladol o bob cwr o'r byd. Un o nodweddion diffiniol fframwaith y cwricwlwm newydd yw'r pwyslais ar gynnydd disgyblion. Bydd trefniadau asesu newydd yn cael eu gweithredu afydd yn galluogi pob disgybl unigol i wneud cynnydd ar gyflymder priodol, gan ystyried eu hanghenion amrywiol. I gynorthwyo â'r datblygiadau yma mae dulliau newydd o ddysgu proffesiynol ac o gefnogi ysgolion. Gyda'i gilydd, bydd y dulliau yma'n ategu ac yn gwella'r cwricwlwm 3-16 newydd. Mae'r angen am gwricwlwm newydd yn amlwg, gan i'r cwricwlwm cenedlaethol cyfredol gael ei gyflwyno ddiwedd yr 1980au, pan oedd bywyd yn wahanol iawn i'r un rydyn ni'n byw ynddo nawr. Rydyn ni bellach yn byw mewn byd llawn datblygiadau technolegol, lle mae pawb yn brysur ac yn cysylltu'n ddigidol. Mae bywyd yn wahanol iawn erbyn hyn, ac mae cymdeithas yn newid. A ninnau'n addysgwyr, mae angen i ni roi’r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiadau i’n disgyblion a fydd yn sicrhau eu bod nhw'n chwarae rhan lawn a gweithredol yn eu cymunedau ac yn y gymdeithas ehangach.

Bydd pedwar diben craidd y cwricwlwm newydd yn sail i bob penderfyniad yn y dyfodol ynghylch blaenoriaethau addysgol cenedlaethol a lleol a dylen nhw fod yn sail i'r holl ddysgu ac addysgu yn Rhondda Cynon Taf fel ein bod ni'n meithrin:

- disgyblion uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd; ac
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd yn aelodau gwerthfawr o gymdeithas, a gan wireddu eu dyheadau

Bydd y cwricwlwm newydd yn gyfrwng pwysig ar gyfer ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) yn y profiad dysgu ac addysgu, ac ar gyfer rhoi dealltwriaeth i'n disgyblion o'u hawliau. Mae chwe maes dysgu a phrofiad (MDAPh) wedi'u datblygu yn elfen ganolog o'r cwricwlwm newydd.

Dyma nhw:

- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu ;
- Mathemateg a Rhifedd;
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Iechyd a Lles;
- Dyniaethau; a'r
- Celfyddydau Mynegiannol.

Mae llythrennedd, rhifedd ac hyfedredd digidol yn sgiliau gorfodol y mae rhaid eu haddysgu ar draws pob MDAPh a bydd angen eu hystyried wrth lunio'r cwricwlwm. Cyfrifoldeb pob athro fydd sicrhau dilyniant yn y sgiliau yma ar draws ac o fewn yr holl MDAPh.

Yn ogystal â'r meysydd yma, bydd cwricwlwm yr ysgol hefyd yn ymdrin â'r canlynol:

- confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a hawliau dynol;
- amrywiaeth a pharchu gwahaniaethau;
- profiadau a sgiliau ar gyfer gyrfaoedd a'r gweithle;
- agweddau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol ar yr holl ddysgu; ac
- addysg perthnasoedd ac rhywioldeb.

Dylai'r cwricwlwm newydd gael ei ystyried yn daith sy'n adeiladu ar wybodaeth, sgiliau a phrofiadau. Efallai y bydd adegau pan fydd disgyblion yn gwneud cynnydd yn gyflym, yn arafu i sicrhau eu bod yn deall pwnc, neu hyd yn oed yn mynd ar drywydd rhywbeth arall oherwydd eu bod nhw'n dod o hyd i rywbeth sydd o ddiddordeb iddyn nhw. Fydd cynnydd ddim yn gysylltiedig ag oedran disgybl bob tro, gan nad yw dysgu'n digwydd yn yr un ffordd ac ar yr un pryd i bawb. Bydd disgyblion yn gwneud cynnydd wrth i'w gwybodaeth nhw dyfu, wrth i'w dealltwriaeth nhw ddyfnhau, wrth i'w sgiliau cyfathrebu nhw ehangu, ac wrth i'w sgiliau nhw wella. Caiff yr asesu ei ymgorffori yng nghwricwlwm yr ysgol a bydd yn rhan o brofiadau dysgu bob dydd i blant. Bydd wedi'i gynllunio mewn ffordd sy'n meithrin dealltwriaeth athrawon a disgyblion o gynnydd unigol. O ganlyniad i hynny, mae'n hynod bwysig bod y cwricwlwm sy'n cael ei ddysgu i'r disgyblion ac y mae'r disgyblion yn ei brofi, yn eu paratoi nhw i ffynnu mewn dyfodol lle mae sgiliau digidol,

gallu i addasu a chreadigrwydd, ochr yn ochr â gwybodaeth, yn hanfodol. Yn y bôn, rydyn ni'n paratoi ein cenhedlaeth bresennol o ddisgyblion ar gyfer swyddi sydd ddim yn bodoli eto.

Yn amlwg bydd datblygu arweinyddiaeth yn hanfodol i gyflawni'r diwygiadau trawsnewidiol yma. Mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol wedi'i sefydlu i gyd-fynd â safonau addysgu ac arwain datblygiadol newydd yng Nghymru. Prif bwrpas yr Academi yw cyfrannu at ddatblygu galluoedd proffesiynol arweinwyr presennol a darpar arweinwyr ym mhob maes addysg, trwy ddarparu cydlyniad ar gyfer yr ystod o gyfleoedd i ddatblygu arweinyddiaeth addysgol sydd ar gael yng Nghymru a sicrhau'u hansawdd. Mae arweinyddiaeth gref yn hanfodol os yw ysgolion eisiau esblygu'n sefydliadau dysgu creadigol ac i hyrwyddo 'parodrwydd' staff i gyflawni'r cwricwlwm newydd. Pwysleisiodd adroddiad 'Cyflawni'r Cwricwlwm Newydd i Gymru' gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn 2020, bwysigrwydd bod pob rhan o'r system ysgolion yn cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd a'i egwyddorion sylfaenol. Yn gefn i hyn, cafodd 'Canllawiau Gwella Ysgolion - Fframwaith ar gyfer Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd' ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2021. Mae'r canllaw drafft yma'n darparu pwynt cyfeirio newydd ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, consortia rhanbarthol ac Estyn, ac yn amlinellu'r disgwyliadau ohonyn nhw wrth iddyn nhw gyfrannu at y gwaith o wella ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud y canllawiau drafft yma'n statudol ym mis Medi 2022.

Mae cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn cyfrannu at ein nodau cenedlaethol sydd wedi'u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r pwysigrwydd sylfaenol o hyrwyddo lles yn thema sy'n rhedeg trwy'r cwricwlwm newydd ac yn benodol trwy Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles. Caiff hwn ei gryfhau ymhellach gan y Fframwaith a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar sy'n nodi bod angen ymgorffori dull ysgol gyfan o ymdrin â lles emosiynol a meddyliol (2021). Dyma sylfaen i ysgolion, unedau atgyfeirio disgyblion a lleoliadau addysg i fyfyrio ar eu darpariaeth llesiant eu hunain a datblygu dulliau strategol ar gyfer sicrhau gwelliannau. Mae'r fframwaith yn cydnabod nad oes modd i ysgolion ddiwallu holl anghenion poblogaeth o blant a phobl ifainc ar eu pennau eu hunain, ac mae'n nodi'r ddyletswydd sydd ar gyrff rhanbarthol ac asiantaethau partner i roi cymorth i ysgolion. Mae atgyfnerthu'r trefniadau gweithio mewn partneriaeth ar gyfer y rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth o ran eu hiechyd meddwl yn hanfodol bwysig os ydyn ni i wella sgiliau'r gweithlu a sicrhau bod disgyblion yn manteisio ar y gwasanaethau hanfodol sydd eu hangen arnyn nhw.

Mae'r cwricwlwm newydd hefyd yn cefnogi un arall o nodau trosfwaol y Ddeddf, sef 'Cymru sydd â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu'. Mae strategaeth Llywodraeth Cymru 'Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg' wedi'i llunio i gyflawni'r nod yma. Diweddarwyd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) y Cyngor yn ddiweddar ac mae'n nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gwella dros y deng mlynedd sydd i ddod, hyd at a chan gynnwys 2032. Mae'n anelu at wneud cynnydd tuag at sicrhau twf o rhwng 8 a 12% yng nghanran y disgyblion ym mlwyddyn un sydd mewn addysg cyfrwng Gymraeg. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd yn nifer y disgyblion Blwyddyn Un mewn addysg cyfrwng Cymraeg o 506 i rhwng 720 ac 825.

Bydd ein penderfyniadau strategol yn cael eu llywio gan yr angen i ddiogelu hawliau plant a sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael eu diwallu'n effeithiol. Mae hawliau plant wedi'u hymgorffori yng nghyfraith Cymru o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 - gan danlinellu ymrwymiad Cymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC). Yn 2004, mabwysiadodd Llywodraeth Cymru'r Confensiwn yn ffurfiol yn sail ar gyfer llunio polisïau yn ymwneud â phlant a phobl ifanc. Yn Rhondda Cynon Taf byddwn ni'n sicrhau ein bod yn rhoi ystyriaeth briodol i hawliau plant fel ein bod yn cefnogi hawl plant a phobl ifanc i fod yn ddiogel, i chwarae, i gael addysg, i fod yn iach ac i fod yn hapus. Mae pedair erthygl allweddol sy'n sail i'r hawliau a nodir yn y Confensiwn, sef:

- Yr hawl i beidio â phrofi gwahaniaethu (erthygl 2)
- Ymrwymiad er budd gorau'r plentyn (erthygl 3)
- Hawl i fywyd, goroesi a datblygu (erthygl 6)
- Hawl i gael eich clywed (erthygl 12).

Mae Erthygl 12 yn y Confensiwn yn ymwneud â hawliau plant a phobl ifanc i fynegi eu barn, eu teimladau a'u dymuniadau, ac i'w barn gael ei hystyried a'i chymryd o ddifrif. Bydd yr hawl yma'n cael lle pwysig yn rhan o'r cynllun strategol tair blynedd.

Mae'r dirwedd addysgol bresennol wedi'i chymhlethu'n sylweddol yn sgil y pandemig. Cyhoeddodd Jeremy Miles, y Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, ddatganiad ym mis Mehefin 2021 yn amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer adnewyddu a diwygio, a’r angen i roi cynnydd a lles disgyblion wrth wraidd popeth wrth inni adfer ar ôl y pandemig. Er mwyn cynorthwyo ysgolion i adfer a gweithredu diwygiadau allweddol, mae'r Gweinidog wedi gweithredu nifer o newidiadau allweddol i leihau beichiau diangen ar ysgolion. Dyma oedd ganddyn nhw i'w ddweud:

- Atal yr angen i asesu a chymedroli ar ddiwedd cyfnod allweddol;

- Parhau i atal mesurau cyflawniad cyfnod allweddol 4 a chweched dosbarth blaenorol tan y flwyddyn academaidd 2021/22. Fydd data ar ddyfarniadau cymwysterau ddim yn cael ei ddefnyddio i adrodd ar ddeilliannau cyrhaeddiad ar lefel ysgol, awdurdod lleol na chonsortiwm rhanbarthol ac ni ddylid ei ddefnyddio i ddwyn ysgolion i gyfrif am ddeilliannau disgyblion.'

- Yn rhan o'r broses yma o gymorth, fydd categoreiddio ysgolion ddim yn digwydd yn y flwyddyn academaidd 2021/22 a fydd ysgolion ddim yn cael categori cyhoeddedig;

- Bydd gofyn i bob ysgol gynnal hunanarfarniad effeithiol ar gyfer gwella'n barhaus. Bydd gofyn bod trefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd yn ystyried ystod eang o wybodaeth, sy'n berthnasol i gyd-destun yr ysgol ei hun. Dylai hyn gynnwys cymorth gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, gan ddefnyddio'r wybodaeth ar lefel disgybl i fyfyrio ar eu trefniadau presennol a'u gwella. Mae adnodd gwerthuso a gwella cenedlaethol hefyd yn cael ei baratoi a fydd yn rhoi cymorth i ysgolion i ymgymryd â hunanarfarniad cadarn.

Ochr yn ochr â'r diwygiadau allweddol yma, mae ymrwymiad cenedlaethol i degwch. Mae pwyslais sylweddol wedi'i roi ar les a chymorth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ac mae'r polisi wedi'i ddatblygu'n sylweddol. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 wedi dod i rym. Bydd dull graddol o ran ei gweithredu yn digwydd dros y tair blynedd nesaf. Bydd arweinyddiaeth strategol gref o'r diwygiadau ADY trawsnewidiol yma'n hanfodol i sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â'n cyfrifoldebau statudol newydd ac yn diwallu anghenion ein disgyblion mwyaf agored i niwed a'u teuluoedd, yn effeithiol.

Cyhoeddodd Estyn y bydd yn atal ei raglen adolygu graidd yn nhymor yr hydref 2021 ar gyfer ysgolion ac unedau atgyfeirio disgyblion. Serch hynny, mae ymweliadau monitro ag ysgolion mewn categori statudol yn parhau. Yn ystod 2021−2022, bydd Estyn yn cefnogi'r system addysg i adnewyddu a diwygio, gyda ffocws penodol ar baratoi'r Cwricwlwm i Gymru a diwygio anghenion dysgu ychwanegol. Yn nhymor y gwanwyn 2022, bydd Estyn yn dechrau treialu'r trefniadau arolygu newydd mewn nifer fach o ysgolion ac unedau atgyfeirio disgyblion.

Daeth dyletswyddau economaidd-gymdeithasol newydd i rym yng Nghymru 2021 o dan Adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb (2010). Mae hyn yn gosod dyletswydd glir ar gyrff cyhoeddus i ystyried effaith penderfyniadau strategol ar wella deilliannau'r rheiny sy'n dioddef adfyd economaidd. Nod y ddeddfwriaeth yma yw gwella bywydau'r rhai sydd fwyaf agored i niwed trwy fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sy fwyaf cysylltiedig â thlodi, a bydd pob penderfyniad polisi yn cael ei lywio gan y ddyletswydd bwysig hon.

Yn anochel, mae'r pandemig wedi creu pwysau ychwanegol ar y system addysg yng Nghymru ar adeg o ddiwygio a newid sylweddol. Wrth i'r dirwedd genedlaethol newid, bydd strategaeth ein hawdurdodau lleol yn gweithio ar yr un pryd i gydnabod a mynd i'r afael ag anghenion penodol Rhondda Cynon Taf a'i chymunedau. Mae'n adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, ac yn dangos y ffordd ymlaen i'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant ac i ysgolion am y tair blynedd nesaf, fel bod modd i ni gyflawni gwelliannau cynaliadwy yn ein hysgolion ac yn ein gwasanaethau, a deilliannau gwell i'n disgyblion.

## Adran 5: Ein Cyflawniadau Allweddol rhwng mis Mawrth 2020 a mis Gorffennaf 2021

Ers mis Mawrth 2020, mae arweinwyr ysgolion a swyddogion Addysg wedi addasu modelau cyflwyno traddodiadol mewn ffordd radical i ganolbwyntio ar gynnal parhad mewn dysgu trwy ddulliau dysgu cyfunol a sicrhau bod anghenion lles pob disgybl, ac yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu cefnogi. Cafodd canolfannau gofal plant brys ar gyfer disgyblion agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol eu sefydlu'n gyflym ar ddechrau'r pandemig. Newidiwyd cynlluniau strategol yn gyflym i sicrhau eu bod nhw'n adlewyrchu blaenoriaethau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg. Mae'n amhosibl rhestru holl gyflawniadau strategol y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant ac

ysgolion yn ystod y cyfnod yma a rhoi darlun cyflawn o'r holl waith caled mae'n gweithlu wedi'i wneud, ond dyma grynhoad o'r cyflawniadau allweddol:

**Cadw disgyblion a staff yn ddiogel**

- Roedd yr awdurdod lleol yn cyhoeddi canllawiau a phrotocolau cadarn, gwybodus ac yn eu diweddaru'n rheolaidd yn fater o drefn i roi cymorth i ysgolion i gadw disgyblion a staff yn ddiogel;
- Roedd ysgolion yn datblygu ac yn diweddaru asesiadau risg cymhleth a chynlluniau parhad busnes yn rheolaidd i adlewyrchu newidiadau mewn canllawiau cenedlaethol a lleol a chyflwyno risgiau;
- Roedd rhieni a gwarcheidwaid yn cael gwybodaeth ac arweiniad yn rheolaidd i gadw eu plant a'u cymunedau yn ddiogel;
- Sefydlwyd strategaethau cyfathrebu effeithiol ac eang gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod negeseuon yn cael eu rhoi yn gyflym a'u bod yn gyson;
- Sefydlwyd systemau, rhwydweithiau cymorth a phrosesau hynod effeithiol ar gyfer rheoli nifer uchel o achosion COVID-19 ar gyfer rhanddeiliaid 7 diwrnod yr wythnos. Roedd y rhain yn cadw tarfu ar ddysgu mor isel â phosibl ac yn cynnal parhad mewn dysgu. Sicrhaodd partneriaethau rhagorol a gweithio mewn tîm o fewn ysgolion ac ar draws adrannau'r Cyngor fod nifer uchel o achosion a chysylltiadau agos yn cael eu nodi'n effeithlon ac yn effeithiol, a bod camau cyflym yn cael eu cymryd i liniaru risgiau;
- Gweithiodd y Gyfarwyddiaeth ac ysgolion mewn partneriaeth i sefydlu 25 o ganolfannau gofal plant brys, gan sicrhau bod plant gweithwyr allweddol a disgyblion agored i niwed yn cael eu nodi a'u cefnogi'n effeithiol mewn amgylcheddau diogel;
- Roedd systemau gwybodaeth data wedi'u halinio ar draws y Cyfarwyddiaethau i baratoi gwybodaeth reoli ar gyfer ysgolion ar ddisgyblion agored i niwed fel y'u diffinnir gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn sicrhau bod gwybodaeth amserol am gymorth a phresenoldeb yn cael ei rhannu i sicrhau goruchwyliaeth broffesiynol a chymorth wedi'i dargedu i'n disgyblion a'n teuluoedd mwyaf agored i niwed;
- Derbyniodd ysgolion gyfarpar diogelu personol, arwyddion, hylif diheintio dwylo, dyfeisiau thermol a gorchuddion wyneb yn gyflym i leihau'r risgiau o drosglwyddo COVID mewn ysgolion;
- Ail-fodelwyd cynlluniau ysgolion ac ystafelloedd dosbarth, a newidiwyd gweithdrefnau gweithredol safonol yn sylweddol i leihau'r risg o drosglwyddo COVID i staff a disgyblion;
- Datblygodd y Gyfarwyddiaeth Addysg ganllawiau, prosesau a gweithdrefnau i gynnal cynllun peilot profion llif unffordd (LFT) ar safle ysgol uwchradd;
- Rhoddwyd cyngor ac arweiniad manwl a chyflenwadau o brofion i ysgolion a theuluoedd er mwyn i staff ysgolion a disgyblion ysgolion uwchradd gynnal profion llif unffordd; a

- Roedd y rhaglen frechu ar gyfer staff ysgol cymwys ar gael i liniaru'r risgiau i'r disgyblion mwyaf agored i niwed.

**Parhad mewn Dysgu**

- Mewn partneriaeth â Chonsortiwm Canolbarth y De (CCD), roedd gan ysgolion fynediad at gyngor, arweiniad a dysgu proffesiynol ar ddysgu cyfunol ac o bell;
- Rhannodd y sector Addysg a'r CCD arfer gorau ar ddysgu cyfunol ac o bell, a hwylusodd gymorth ysgol i ysgol;
- Gan weithio ar y cyd ag ysgolion a chydweithwyr ym maes TGCh, sicrhaodd y Gyfarwyddiaeth Addysg fod gan bob disgybl fynediad at ddysgu digidol a bod disgyblion sydd wedi'u hallgau'n ddigidol yn cael eu nodi a'u bod nhw'n cael dyfeisiau priodol (dosbarthwyd mwy na 5,400 o ddyfeisiau ar draws RhCT);
- Fe wnaethon ni sicrhau bod disgyblion a staff yn cael eu diogelu ar-lein trwy ddarparu cyngor priodol a chanllawiau ysgrifenedig i ysgolion;
- Mewn partneriaeth â'r CCD ac ysgolion, sicrhawyd ansawdd y cynnig dysgu o bell ar draws ysgolion a rhoddwyd cefnogaeth strategol yn ôl y galw;
- Fe wnaethon ni gasglu a dadansoddi adborth rhanddeiliaid (gan gynnwys arolygon rhieni/gwarcheidwaid) i lunio a gwella'r cynnig dysgu cyfunol a Gwasanaethau'r Cyngor ymhellach; a
- Gweithiodd ysgolion yn ddiflino i ddatblygu prosesau a gweithdrefnau cadarn i baratoi graddau sydd wedi'u hasesu/penderfynu mewn canolfan a oedd yn adlewyrchu galluoedd disgyblion yn gywir.

**Bod yn gefn i'r rhai mwyaf agored i niwed**

- Cyflwyno Cynllun Cymorth Gofal Plant y Coronafeirws yn effeithiol ar draws 99 o leoliadau ar gyfer 747 o blant;
- Gweinyddu a chynnal clybiau brecwast ar gyfer mwy na 3,500 o ddisgyblion bob tymor;
- Sicrhau mynediad i brydau ysgol am ddim yn y gymuned i oddeutu 8,500 o ddisgyblion ar ddechrau'r pandemig;
- Darparu taliadau BACS ar gyfer mwy na 10,000 o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim;
- Darparu cefnogaeth a chludiant wedi'i dargedu i gynnwys y rhai mwyaf agored i niwed mewn hybiau gofal plant ac yn y broses dysgu o bell;
- Trefnu ymweliadau rhithwir, galwadau ffôn ac ymweliadau cartref i gefnogi disgyblion agored i niwed a'u teuluoedd;
- Ailfodelu gwasanaethau'r awdurdod lleol a chymorth ysgol ar gyfer y rhai mewn angen, gan sicrhau bod dyletswyddau anstatudol a statudol yn cael eu cyflawni;
- Darparu swyddogion ymgysylltu â theuluoedd ar gyfer 6 ysgol pob oed / uwchradd a llwyddo i gael cyllid ar eu cyfer;

- Sicrhau cyllid ychwanegol i ymestyn y cynllun peilot swyddogion ymgysylltu â theuluoedd i 13 o ysgolion cynradd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig;
- Sicrhau mwy na £1.1 miliwn ar gyfer darpariaethau cam 4 mewn ysgolion pob oed/uwchradd wedi'u targedu a oedd yn cefnogi datblygu darpariaeth bwrpasol ar gyfer disgyblion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol sylweddol;
- Mewn partneriaeth ag ystod o adrannau'r Cyngor a staff ysgolion, fe wnaethon ni gyflynu a chyflwyno rhaglen gweithgareddau'r haf ar gyfer plant agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol ar draws 7 lleoliad addysgol; a
- Cyflwyno'r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau'r Haf (SHEP) mewn 16 o ysgolion.

**Gwell capasiti digidol ar draws y system**

- Datblygu gallu gweithio digidol a gweithio hyblyg ar draws y Gyfarwyddiaeth ac ysgolion trwy ddefnyddio Zoom, Microsoft Teams a chymwysiadau digidol eraill yn effeithiol a sicrhau mynediad at hyfforddiant ac arweiniad i'r gweithlu ar ddefnyddio cymwysiadau;
- Gwella'r defnydd o dechnoleg ddigidol a systemau rheoli gwybodaeth ar draws y Gyfarwyddiaeth a gwerthuso data i wella'r modd mae gwasanaethau'n cael eu darparu a sicrhau gwelliannau. Mae hyn yn cynnwys:
    - coladu data ar bresenoldeb mewn hybiau gofal plant yn ôl grwpiau agored i niwed a statws gweithwyr allweddol;
    - llunio adroddiadau data byw ar bresenoldeb, gwaharddiadau, derbyniadau, achosion COVID-19 mewn ysgolion a throsglwyddiadau yn ystod y flwyddyn;
    - adrodd ar ddata ar ymgysylltiad a chymorth wedi'i dargedu ar gyfer grwpiau agored i niwed;
    - adrodd ar ddata ar ymgysylltu â gwasanaethau ac ymwneud â'r rhai mwyaf agored i niwed;
    - defnyddio e-ffurflenni ar gyfer ceisiadau ar-lein amrywiol;
    - defnyddio Microsoft Forms i lywio'r broses o wneud penderfyniadau amlddisgyblaethol cyflym ar achosion COVID-19 a lleihau'r risgiau o'i drosglwyddo;
    - cyflwyno Microsoft Forms ar gyfer cael adborth rhanddeiliaid;
    - trefnu cyfarfodydd rhithwir i arweinwyr canolfannau, penaethiaid ysgolion a llywodraethwyr a chyfarfodydd cynllunio adfer amlddisgyblaethol rhithwir;
    - cyflwyno meddalwedd ‘My Concern’ ar draws pob lleoliad i ddigideiddio gweithdrefnau diogelu ac i sicrhau cysondeb mewn dulliau ar draws lleoliadau;
- Gweithredu'r rhaglen Seilwaith Hwb a darparu gwell cysylltedd ar draws safleoedd ysgolion; a
- Datblygu ac ymgynghori ar Strategaeth Ddigidol 5 Mlynedd ar gyfer Ysgolion.

**Gwasanaeth Gwella Ysgolion**

- Parhaodd ysgolion a gwasanaethau i symud ymlaen gyda diwygiadau i Gwricwlwm Cymru a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET) trwy gynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol, gweithdai clwstwr, cynllunio a gweithredu strategol;
- Cyflwynodd ysgolion gynnig dysgu cyfunol gwell a dangosant ragor o ymgysylltiad gan ddisgyblion wrth i amser fynd yn ei flaen;
- Tynnwyd 3 ysgol o adolygiad gan Estyn yn ystod y pandemig;
- Mae ysgolion sydd wedi cael statws coch / ambr yn hanesyddol wedi cymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd cynnydd ac wedi gwneud cynnydd da neu gryf ar argymhellion a Chynlluniau Gweithredu Ôl-Arolygu ym mron pob achos;
- Mae pob ysgol sydd â diffyg cyllidebol wedi gwneud cynnydd rhagorol wrth gyflawni eu cynlluniau adfer cyllideb;
- Mae ysgolion wedi defnyddio cyllid cam 4 yn effeithiol i sefydlu darpariaeth bwrpasol ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol sylweddol mewn 11 ysgol uwchradd;
- Rhoddwyd cymorth ymsefydlu ar gyfer penaethiaid newydd a rhai dros dro yn RhCT;
- Mae carfan arall o ddarpar benaethiaid wedi llwyddo i gwblhau rhaglen arweinyddiaeth yr awdurdod lleol. Dywedodd llawer o'r cyfranogwyr bod y rhaglen yn drawsnewidiol;
- Mae carfan o arweinwyr canol wedi cwblhau cwrs dysgu proffesiynol 'Leading from the Centre'; ac
- Mewn partneriaeth â'r CCD ac Adnoddau Dynol, darparwyd cefnogaeth ac arweiniad ar gyfer lles penaethiaid/staff.

**Parhawyd i gyflawni datblygiadau Ysgolion yr 21ain Ganrif**

- Sicrhawyd cymeradwyaeth mewn egwyddor o £167.39 miliwn (wedi'i gynyddu i £252.207 miliwn ym mis Medi 2021) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno prosiectau Cyfalaf Band B:
  - Mae adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Hirwaun wedi'i chwblhau a buddsoddwyd £10.2 miliwn;
  - Mae gwaith sylweddol i gynyddu capasiti a darparu gofal plant blynyddoedd cynnar yn cael ei wneud yn Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr gyda buddsoddiad o £4.5 miliwn wedi'i gynllunio;
  - Mae Ysgol Gyfun Rhydywaun yn cael ei hadnewyddu'n sylweddol gyda buddsoddiad o £12 miliwn;
  - Mae cynlluniau ar gyfer ysgol gynradd Gymraeg newydd ar gyfer Rhydfelen ar y gweill. Amcangyfrif ar gyfer y gost yw £13 miliwn;
  - Mae ysgol 3-16 newydd wedi'i chynllunio ar safle Ysgol Uwchradd Pontypridd. Amcangyfrif y buddsoddiad yw £8 miliwn;
  - Mae ysgol 3-16 newydd wedi'i chynllunio ar safle Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen. Y buddsoddiad fydd £21 miliwn;

- Mae bloc newydd a gwaith ailfodelu wedi'i gynllunio ar gyfer Ysgol Gyfun Bryncelynnog wedi'i gynllunio. Bydd yn costio £15 miliwn;

- Yn ogystal â phrosiectau Cyfalaf Band B, mae'r Cyngor wrthi'n datblygu nifer o gynlluniau Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM) gan gynnwys 3 adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Llanilltud Faerdref, Ysgol Gynradd Pont-y-clun ac Ysgol Gynradd Pen-y-gawsi. Amcangyfrifir bydd y rhain yn costio £23 miliwn;
- Sicrhaodd y Cyngor safle newydd sbon ar gyfer adeilad ysgol newydd a gynlluniwyd ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn-y-forwyn. Amcangyfrifir bydd hyn yn costio £8.5 miliwn;
- Mae cynllun i ehangu Ysgol Gynradd Dolau ar y gweill ac mae ganddo fuddsoddiad o £10 miliwn;
- Mae'r Cyngor wedi darparu lleoliad blynyddoedd cynnar newydd gwerth £1 miliwn yn Ysgol Gynradd Treorci;
- Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant wedi cael estyniad gyda rhagor o ystafelloedd dosbarth gwerth £800 mil;
- Mae cylch meithrin newydd gwerth £700 mil wedi'i sefydlu yn Ysgol Gynradd Gymraeg Ynyswen;
- Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Abercynon wedi derbyn buddsoddiad o oddeutu £200 mil i greu darpariaeth gofal sesiynol cyfrwng Cymraeg newydd;
- Mae gwaith sylweddol ar gost o £730 mil yn cael ei wneud yn Ysgol Gynradd Dolau i greu darpariaeth gofal sesiynol cyfrwng Cymraeg newydd;
- Bydd darpariaeth blynyddoedd cynnar newydd yn cael ei sefydlu yn Ysgol Gynradd Gwauncelyn ar gost o £745 mil a bwriedir ei chwblhau erbyn mis Ionawr 2022;
- Mae darpariaeth blynyddoedd cynnar newydd yn Ysgol Gynradd Cwmlai, sy'n costio £750 mil, ar y gweill a bwriedir ei chwblhau erbyn mis Ebrill 2022;
- Mae cynllun grant cyfalaf bach wedi arwain at wneud gwelliannau mewn nifer o leoliadau blynyddoedd cynnar i wneud addasiadau i gefnogi rheolaeth effeithiol o COVID-19; a
- Buddsoddwyd swm sylweddol o gyllid yn rhan o'r Rhaglen Gyfalaf Ysgolion yn ystod y pandemig.

Dylid nodi bod y bartneriaeth sy'n gweithio gydag ysgolion yn ymestyn i adrannau eraill y Cyngor gan gynnwys Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, Iechyd a Diogelwch, Adnoddau Dynol, Eiddo'r Cyngor, Cyllid, TGCh, Gwasanaethau i Blant a llawer o rai eraill. Mae diwylliant ac ethos o ‘un tîm’ yn gweithio gyda’i gilydd i wneud gwahaniaeth wedi bod yn nodwedd gref drwy’r pandemig. Mae hyn wedi galluogi’r Cyngor a’n hysgolion i gyflawni deilliannau cadarnhaol ar gyfer ein cymunedau.

## Adran 6:  Ein Cenhadaeth

Ein Cenhadaeth yn Rhondda Cynon Taf yw:

**'Cyflawni tegwch a rhagoriaeth mewn Addysg a gwell lles i bawb'.**

Ein cenhadaeth yw anelu at ragoriaeth ym mhopeth a wnawn, lle diffinnir rhagoriaeth yn ganlyniad graddol ymdrechu bob amser i wneud yn well a sicrhau gwelliannau. Bydd y buddion a ddaw o welliannau tymor byr/canolig/hir effeithiol sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau allweddol yn sicrhau deilliannau gwell i'n disgyblion ac yn ein galluogi ni i weithio tuag at ddyfodol gwell.

Cydnabyddir yn eang bod rhagoriaeth 'yn cymryd gwaith caled, arweinyddiaeth gref, gweledigaeth glir ac ymroddiad di-baid i gyflawni' (Estyn 2020). Byddwn ni'n sicrhau bod ein hysgolion yn cael digon o gymorth ar eu taith i gyflawni tegwch a rhagoriaeth mewn Addysg a gwell lles i bawb. Ar gyfer lleoliadau lle bernir bod arfer eisoes yn rhagorol neu'n gryf iawn, anogir cyfleoedd i rannu arfer gorau ac i hwyluso cymorth ysgol i ysgol, mewn partneriaeth â Chonsortiwm Canolbarth y De.

Dim ond os ydyn ni'n sicrhau bod y system yn nodi ac yn mynd i'r afael â'r heriau unigryw sy'n cyflwyno'u hunain i unigolion neu grwpiau o ddisgyblion mae modd i ni sicrhau tegwch. Mae ein disgyblion yn haeddu cael tegwch mewn addysg a chael mynediad at y cymorth cywir ar yr adeg iawn i oresgyn rhwystrau i ddysgu, ymgysylltu a phresenoldeb. Ni ddylai amddifadedd, rhywedd, rhywioldeb, profiadau niweidiol mewn plentyndod, ethnigrwydd, anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd atal ein disgyblion rhag cyrraedd eu potensial a chyflawni deilliannau cadarnhaol. Er mwyn cyflawni pedwar pwrpas craidd y cwricwlwm newydd, bydd arweinyddiaeth gadarn a ffocws di-baid ar sicrhau profiadau addysgol rhagorol ac addysgu a dysgu sy'n diwallu anghenion pob disgybl yn hanfodol.

## Adran 7:  Ein Gweledigaeth Ni

Dyma ein Gweledigaeth:

**'Ysbrydoli a bod yn gefn i arweinyddiaeth ac ymarfer proffesiynol rhagorol, fel bod pob disgybl yn Rhondda Cynon Taf yn gwneud cynnydd da ac yn tyfu'n unigolyn uchelgeisiol, galluog, creadigol ac sy'n wybodus yn foesegol'**

Mae ein gweithlu'n ganolog i ni wneud gwahaniaeth i fywydau ein disgyblion a'n cymunedau. Er gwaethaf yr heriau a wynebwyd yn ystod y pandemig, rydyn ni'n parhau i ganolbwyntio'n gadarnhaol ar sicrhau bod gennyn ni arweinwyr ysgolion ac ymarferwyr addysgol o'r ansawdd uchaf yn ein hysgolion. Bydd cael gweithlu medrus a hyfforddedig iawn yn ein galluogi ni i ddarparu cwricwlwm trawsnewidiol a phrofiadau addysgol o ansawdd uchel ar draws ein hysgolion, a fydd yn parhau i fod yn ffocws hanfodol dros y tair blynedd nesaf a thu hwnt.

Bydd pwyslais ar arweinyddiaeth gadarn a dysgu proffesiynol yn helpu i gyflawni'r disgwyliadau uchel rydyn ni i gyd yn eu rhannu ar gyfer ein disgyblion a'n hysgolion. Trwy fuddsoddi yn natblygiad proffesiynol arweinwyr ein hysgolion a'n gweithlu, ein nod yw cyflwyno addysgu a dysgu o ansawdd uchel y mae ddealltwriaeth gadarn o addysgeg, datblygiad plant a gwybodaeth bwnc yn sail iddyn nhw. Mae'r heriau sy'n ein hwynebu wrth gau'r bwlch cyrhaeddiad yn golygu bod angen i'n dulliau addysgu a'n hymyriadau gael eu llywio gan ymchwil a'u seilio ar arfer gorau ar lefelau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. Bydd sicrhau gwelliannau yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu ac effeithiolrwydd y cymorth i ysgolion yn hanfodol wrth sicrhau pedwar pwrpas craidd y cwricwlwm newydd a chynnal arfer rhagorol ar draws pob ysgol. Mae presenoldeb da yn yr ysgol ac ymgysylltiad da mewn addysg lle mae pob athro yn fedrus wrth ddiwallu anghenion disgyblion sydd ag ADY sylweddol a hyrwyddo cynhwysiant llwyddiannus yn ganolog i'r weledigaeth.

Mae angen i fuddsoddiad mewn dysgu proffesiynol rychwantu'r gweithlu addysg fel bod disgyblion yn cael cymorth digonol ar draws y sbectrwm o staff sydd â chyfrifoldeb am addysgu, cymorth dysgu, ymgysylltu a lles. Bydd staff sydd â sgiliau mewn sefydlu perthnasoedd ac amgylcheddau dysgu cynnes, gofalgar a chadarnhaol yn hanfodol wrth gefnogi ein disgyblion yn ystod y cyfnod pwysig yma o adnewyddu a diwygio. Bydd eglurder o ran y cynnig dysgu proffesiynol yn bwysig wrth leihau dyblygu ar draws y system.

## Adran 8: Ein Blaenoriaethau Strategol ni:

Bydd ein strategaeth ddiwygiedig yn rhoi blaenoriaeth i'r meysydd hynny y profwyd eu bod yn effeithiol wrth gyflawni ein cenhadaeth, ein gweledigaeth a'r meysydd a nodwyd o hunanarfarnu cadarn ac adborth gan randdeiliaid. Mae'r rhain hefyd yn adlewyrchu ein blaenoriaethau corfforaethol lleol a bennwyd yng nghyd-destun adferiad a diwygiad cenedlaethol a lleol.

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth 1:** | **Datblygu gweithlu addysgol sy'n hynod fedrus iawn ac arweinwyr rhagorol ar bob lefel** |
| **Blaenoriaeth 2:** | **Rhoi cymorth i ysgolion ddarparu cwricwlwm trawsnewidiol, darpariaeth ddysgu ac addysgu o safon uchel a deilliannau gwell i bawb** |

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth 3:** | **Sicrhau tegwch a chymorth i ddisgyblion sy'n agored i niwed a'u teuluoedd** |
| **Blaenoriaeth 4:** | **Gwella lles ein disgyblion a'r gweithlu.** |
| **Blaenoriaeth 5:** | **Cyflwyno amgylcheddau dysgu a gwasanaethau arloesol sy'n addas ar gyfer yr 21 ain ganrif ar gyfer ein disgyblion a'n cymunedau** |

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth Strategol 1:** | Datblygu gweithlu addysgol medrus iawn a datblygu arweinyddiaeth ragorol ar bob lefel. |

Mae'r flaenoriaeth yma'n canolbwyntio ar ddatblygu gweithlu addysgol sy'n hynod fedrus ac arweinwyr sy'n rhagorol ar bob lefel drwy:

- sicrhau bod gan lywodraethwyr, uwch arweinwyr a'r arweinwyr canol yr uchelgais a'r disgwyliadau uchaf a'u bod nhw'n sicrhau cysondeb wrth weithredu polisïau a systemau allweddol;
- sicrhau bod gweithdrefnau llywodraethu ysgolion yn gryf trwy hyfforddiant o ansawdd uchel, cefnogaeth a her;
- sicrhau partneriaethau cymdeithasol effeithiol i gefnogi datblygu a gweithredu datblygiadau strategol yn effeithiol;
- sicrhau hunanarfarniad effeithiol a choladu adborth rheolaidd gan randdeiliaid, gan gynnwys llais y disgybl, i lunio cynlluniau gwella strategol ar lefel awdurdod lleol ac ysgol;
- sefydlu grŵp cyfeirio penaethiaid i gynorthwyo â datblygiadau strategol;
- sicrhau bod cymorth i wella ysgolion yn cyd-fynd â'r fframwaith drafft newydd ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd, a'i fod yn cyflawni'r gwelliannau angenrheidiol i'r ysgol;
- datblygu ein hysgolion ymhellach yn sefydliadau dysgu, mewn partneriaeth â'r CCD, yn ffordd o wireddu'r cwricwlwm newydd;
- darparu dysgu proffesiynol rhagorol i staff, mewn partneriaeth â'r CCD;
- archwilio a gwerthuso gwahanol fodelau arweinyddiaeth broffesiynol ar lefel ysgol a chlwstwr trwy gyfleoedd dysgu proffesiynol a chefnogaeth strategol;
- gwella ansawdd addysgeg athrawon ac ymarfer sy'n seiliedig ar ymchwil;
- sicrhau bod safonau proffesiynol yn cael eu gweithredu'n effeithiol ar gyfer athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill;
- sicrhau bod arweinwyr ysgol yn datblygu cynlluniau effeithiol i gadw eu cymunedau ysgol yn ddiogel;
- sicrhau bod pob arweinydd ysgol sydd newydd ei benodi yn cael cyfnod sefydlu a mentor;

- sicrhau bod strategaeth gadarn ar gyfer olyniaeth ar waith a bod buddsoddiad mewn hyfforddiant mewn arweinyddiaeth ar gyfer darpar benaethiaid;
- nodi pwysau staffio a datblygu dulliau effeithiol o ddenu a chadw arweinwyr a staff ysgolion o'r ansawdd uchaf yn RhCT;
- gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod digon o athrawon o ansawdd da ar gyfer ysgolion, yn enwedig yn y sector cyfrwng Cymraeg.

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth Strategol 2:** | Rhoi cymorth i ysgolion ddarparu cwricwlwm trawsnewidiol, darpariaeth ddysgu ac addysgu o safon uchel a deilliannau gwell i bawb |

Mae blaenoriaeth strategol 2 yn canolbwyntio ar roi cymorth i ysgolion ddarparu cwricwlwm trawsnewidiol, darpariaeth ddysgu ac addysgu o safon uchel a deilliannau gwell i bawb. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy:

- sicrhau bod ein gwasanaeth gwella ysgolion a gomisiynwyd yn adlewyrchu ein cyd-destun lleol unigryw ac yn cefnogi ein hysgolion i wella a darparu gwell addysgu a dysgu a dilyniant cadarnhaol i bob disgybl;
- cryfhau datblygiad system sy'n hunan-wella, cymorth effeithiol ysgol i ysgol a rhannu arfer gorau;
- sicrhau bod yr ysgolion sydd â'r anghenion mwyaf yn cael cymorth pwrpasol ac effeithiol er mwyn gwella ac er mwyn cael Cwricwlwm Cymru yn barod;
- sicrhau cynllun strategol blynyddoedd cynnar ar draws y gyfarwyddiaeth sy'n gwbl integredig ar gyfer plant 0-7 oed sy'n sicrhau bod disgyblion yn cael y cymorth cywir ar yr amser cywir;
- sicrhau bod lleoliadau blynyddoedd cynnar sydd ddim yn cael eu cynnal a lleoliadau sy'n cael eu cynnal yn gweithio i ddatblygu'r sgiliau gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol priodol a'r sgiliau rhagofynnol angenrheidiol ar gyfer dysgu a dilyniant;
- sicrhau bod addysgu a dysgu ym mhob ysgol ac Uned Atgyfeirio Disgyblion yn cael eu gwella a'u halinio â gofynion newydd y meysydd dysgu a phrofiad;
- cysylltu datblygiadau cwricwlwm newydd â phrosiectau arloesol gyda'r nod o gefnogi Strategaeth Newid Hinsawdd uchelgeisiol y Cyngor;
- sicrhau bod synergedd rhwng Maes Dysgu a Phrofiad - Iechyd a Lles a'r Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer lles emosiynol a meddyliol;
- cryfhau dulliau sy'n seiliedig ar glystyrau i ddatblygu a chyflwyno'r cwricwlwm newydd ac i rannu arfer gorau;
- archwilio partneriaethau traws-sectorau i ddatblygu'r cwricwlwm newydd gyda'r nod o wella dysgu a lles a buddion iechyd, ffyniant a chyflogaeth tymor hwy;
- gwella dulliau gwerthuso ar bob lefel i ddeall y cynnydd a wneir gan bob disgybl;
- sicrhau bod ysgolion yn olrhain deilliannau disgyblion yn effeithiol, a gwerthuso strategaethau ac ymyriadau wedi'u targedu'n gadarn gyda'r nod o wella dilyniant disgyblion;

- sicrhau bod ysgolion yn cael cymorth sy'n seiliedig ar ymchwil a chymhwyso arfer gorau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn seiliedig ar dystiolaeth i'w lleoliadau eu hunain;
- sicrhau bod gan ysgolion gyd-ddealltwriaeth o Degwch a Rhagoriaeth mewn Addysg;
- sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd mewn llythrennedd, rhifedd a TGCh; a chaiff y bwlch cyrhaeddiad rhwng y cyfoedion mwyaf cyfoethog a lleiaf cyfoethog ei gulhau;
- gweithredu a gwerthuso effaith prosiect llythrennedd y Cyngor gyda'r nod o wella safonau ysgrifennu mewn ysgolion uwchradd;
- datblygu a gwerthuso menter strategol gyda'r nod o wella datblygiad sgiliau lleferydd ac iaith yn y blynyddoedd cynnar;
- sicrhau bod gan bob ysgol raglen o weithgareddau cyfoethogi diwylliannol, chwaraeon, creadigol a hamdden i ddysgwyr trwy gydol eu haddysg statudol;
- sicrhau bod rhieni/cynhalwyr yn cael gwybod am ddiwygiadau allweddol a'u bod yn cael eu cefnogi i wella dysgu eu plentyn; a
- gweithio mewn partneriaeth â'r Consortiwm i sicrhau bod ysgolion yn cael eu cefnogi i ddatblygu cymhwysedd dwyieithog a datblygu sgiliau Cymraeg.

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth Strategol 3:** | Sicrhau tegwch a chymorth i ddisgyblion sy'n agored i niwed a'u teuluoedd |

Mae blaenoriaeth strategol 3 yn canolbwyntio ar sicrhau'r llwybr dysgu cywir a'r gefnogaeth i ddisgyblion sy'n agored i niwed a'u teuluoedd**.** Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy:

- sicrhau bod holl staff yr ysgol wedi cael hyfforddiant proffesiynol priodol ar y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET) a'u bod nhw'n gwbl effro i'w dyletswyddau statudol ac egwyddorion ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person;
- cefnogi ysgolion i hunanwerthuso darpariaeth ADY yn effeithiol a chynllunio'n strategol i'w wella;
- sicrhau bod cyrff llywodraethu yn derbyn adroddiad blynyddol ar ADY ac yn craffu ar y ddarpariaeth;
- sefydlu dulliau cynaliadwy a hunanddibynnol yn seiliedig ar glystyrau o drawsnewid yn unol â Deddf ALNET;
- cryfhau gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, y gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a sefydliadau addysg bellach er mwyn sicrhau gwell deilliannau i'r rhai mwyaf agored i niwed a difreintiedig;
- parhau i wella ansawdd y cymorth wedi'i dargedu fel bod deilliannau addysgol pob grŵp sy'n agored i niwed, gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sydd ag ADY, grwpiau lleiafrifoedd ethnig a phlant sy'n derbyn gofal yn cael eu gwella;

- sicrhau bod y rhai sydd wedi cael eu heffeithio gwaethaf gan y pandemig yn cael eu nodi ac yn cael mynediad at gymorth gwell i wneud cynnydd mesuradwy;
- gweithredu a gwerthuso effeithiolrwydd rhaglenni ac ymyriadau strategol gyda'r nod o oresgyn y rhwystrau i bresenoldeb yn yr ysgol ac ymgysylltu i'r rhai mwyaf difreintiedig ac agored i niwed;
- sicrhau bod pob ysgol yn cymryd rhan mewn mapio'r ddarpariaeth ar gyfer ADY ac yn gallu dangos ei effaith;
- sicrhau bod modelau cyllid cynyddu capasiti ar gyfer ADY yn cyd-fynd â'r diwygiadau ADY ac yn cefnogi cynhwysiant prif ffrwd effeithiol;
- sicrhau bod rhieni/cynhalwyr yn wybodus am Ddeddf ALNET (2018) a'u bod yn cael eu cefnogi a'u grymuso i ddiwallu anghenion eu plant;
- archwilio hyfywedd sefydlu gwasanaeth synhwyraidd isranbarthol;
- gwella deilliannau i blant sy'n derbyn gofal ymhellach trwy dreialu ysgol rithwir ar gyfer plant sy'n derbyn gofal;
- adolygu ac ailfodelu'r ddarpariaeth diwtora i unigolion ac mewn grŵp;
- sicrhau bod prosesau, gweithdrefnau a darpariaeth addysg gartref ddewisol yn effeithiol wrth ddiwallu anghenion disgyblion;
- sicrhau bod cynnig blynyddoedd cynnar integredig i ddisgyblion ag ADY;
- sicrhau pontio di-dor ar draws pob cyfnod a sicrhau mwy o barhad mewn addysg, yn enwedig yn y sector cyfrwng Cymraeg;
- datblygu llwybrau dysgu amgen mwy helaeth ar gyfer pobl ifainc 14-19 oed a gwerthuso effeithiolrwydd datblygu darpariaeth cam 4 ar draws ysgolion allweddol;
- rhoi mynediad i ddisgyblion at wybodaeth ac arweiniad gyrfaoedd o ansawdd uchel sy'n eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus am eu llwybr addysgol a'u gyrfaoedd yn y dyfodol;
- cryfhau ymagweddau at Gatsby a pharatoi ar gyfer byd gwaith, hyfforddiant ac addysg bellach;
- cefnogi ymgysylltiad effeithiol â theuluoedd a gweithio mewn partneriaeth ar draws y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth, teuluoedd ac ysgolion; a
- ymestyn a gwerthuso effeithiolrwydd y rhaglen SEREN ymhellach.

| **Blaenoriaeth Strategol 4:** | Gwella lles ein disgyblion a’r gweithlu. |
|---|---|

Mae Blaenoriaeth 4 yn canolbwyntio ar wella lles ein disgyblion a'r gweithlu. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy:

- cefnogi ysgolion i hunanwerthuso yn erbyn y ‘Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer lles emosiynol a meddyliol’ ac i gyflawni cynlluniau strategol effeithiol gyda’r nod o wella lles staff a disgyblion;
- datblygu dysgu proffesiynol i gefnogi gweithrediad effeithiol y Fframwaith, mewn partneriaeth â'n gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol;

- ymestyn ymarfer sy'n deall trawma ar draws pob ysgol, gan gynnwys modelau hyfforddi'r hyfforddwyr;
- sefydlu hyrwyddwyr lles clwstwr a mentrau ac arferion clwstwr effeithiol;
- defnyddio ymchwil ar sail tystiolaeth i lywio arfer gorau wrth gefnogi disgyblion agored i niwed ac ymchwil yn seiliedig ar ymholi ac ymyrraeth;
- ymestyn rolau ymgysylltu â theuluoedd ymhellach ledled y Fwrdeistref Sirol a gwerthuso effaith cyllid ar ddeilliannau;
- sicrhau bod y continwwm cefnogaeth i ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn addas at y diben ac yn sicrhau gwell deilliannau i ddisgyblion;
- ail-alinio'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles i sicrhau cymorth effeithiol i ysgolion a disgyblion i oresgyn rhwystrau i fynychu'r ysgol ac ymgysylltu;
- sicrhau bod gwell cymorth lles ar waith i ddisgyblion a staff sydd wedi'i diffinio'n glir ac yn hygyrch (e.e., gwasanaethau cwnsela, cynlluniau mentora);
- datblygu llwybrau lles integredig i ddisgyblion mewn partneriaeth â Gwasanaethau i Blant, Gwasanaethau i Bobl Ifainc a'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifainc (CAMHS);
- darparu PERMA i bob ysgol a gwerthuso'r effaith;
- datblygu mesurau cyson a chyfannol o becynnau lles a data;
- gofyn am adborth gan ddisgyblion ar draws y system yn fater o drefn am faterion yn ymwneud â lles a dysgu a sicrhau bod hyn yn llywio blaenoriaethau strategol;
- sicrhau bod dulliau sy'n ymwneud â hawliau plant wedi'u hymgorffori ar draws pob ysgol a bod lleisiau disgyblion yn cael gwrandawiad ac yn llywio datblygiadau strategol;
- hyrwyddo mynediad i glybiau brecwast a phrydau ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys;
- sicrhau bod ysgolion yn cymryd rhan ragweithiol mewn cynlluniau ysgolion iach ac yn mynd ati i hyrwyddo gweithgaredd corfforol a ffyrdd iachus o fyw;
- hyrwyddo cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan weithredol yn eu cymunedau, trwy gymryd rhan mewn chwaraeon, hamdden a gweithgareddau chwarae; a
- gweithredu strategaeth gwrth-fwlio effeithiol.

| **Blaenoriaeth Strategol 5:** | Cyflwyno amgylcheddau dysgu a gwasanaethau arloesol sy'n addas ar gyfer yr 21$^{ain}$ Ganrif ar gyfer ein disgyblion a'n cymunedau. |
|---|---|

Mae Blaenoriaeth Strategol 5 yn canolbwyntio ar ddarparu amgylcheddau dysgu diogel sy'n addas ar gyfer yr 21$^{ain}$ Ganrif a gwasanaethau arloesol i'n disgyblion a'n cymunedau. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy:

- sicrhau bod ein Rhaglen Foderneiddio Model Cyfalaf a'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM) Band B Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif uchelgeisiol yn cael ei chyflawni'n effeithiol;

- sicrhau bod ysgolion newydd yn cael eu hadeiladu i safonau Carbon Sero-Net lle bynnag y bo hynny'n bosibl a'u bod yn isel mewn allyriadau carbon ac yn effeithlon o ran ynni;
- cyflawni Grant Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru a datblygu'r Cynnig Gofal Plant ymhellach;
- creu ysgolion hygyrch wedi'u cynllunio'n dda sy'n cyflawni gofynion Deddf ALNET;
- datblygu dulliau effeithiol o ddysgu yn yr awyr agored ymhellach a gwella'r amgylchedd allanol a bioamrywiaeth ystadau ein hysgolion;
- cefnogi ysgolion i gyflawni Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd y Cyngor;
- sicrhau bod datblygiadau'n cyd-fynd â'r Cynllun Datblygu Lleol ac yn mynd i'r afael â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg;
- datblygu, gweithredu a monitro gweithrediad ac effaith y CSCA 10 mlynedd newydd;
- datblygu dulliau partneriaeth effeithiol o hyrwyddo cydlyniant cymunedol ac agenda 'Prevent';
- sicrhau bod gan ysgolion brosesau a gweithdrefnau diogelu cadarn, a dulliau rheoli gwybodaeth cyson;
- adeiladu ar ein dulliau Ysgolion Bro a chyfleoedd i gryfhau gweithio ar y cyd rhwng ysgolion a chymunedau er budd ein disgyblion a'u teuluoedd;
- cyflawni ein Strategaeth Ddigidol ar gyfer Ysgolion a'n Rhaglen Trawsnewid Hwb fel bod ysgolion mewn sefyllfa dda i gyflawni'r Cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru;
- datblygu llwyfannau mwy effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth ddigidol, canllawiau a dogfennau polisi ar gyfer disgyblion, ysgolion, rhieni / gwarcheidwaid a rhanddeiliaid eraill;
- gwella cyfleoedd i sicrhau adborth gan randdeiliaid ar bob agwedd o ddylunio a darparu gwasanaethau;
- cryfhau sianeli ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu â disgyblion; a
- sefydlu dull amlasiantaethol effeithiol i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau a heriau diogelwch cymunedol.

## Adran 9: Sut byddwn ni'n mynd ati i wireddu ein blaenoriaethau?

Bydd pedwar gwerth craidd yn sail i’n gwaith ar draws y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant ac ysgolion:

**Cydweithio - Dyhead - Cynhwysiant - Arloesedd**

- Bydd partneriaethau a **chydweithio** effeithiol yn rhan annatod o fod yn gefn i'n disgyblion a theuluoedd mwyaf agored i niwed er mwyn sicrhau bod gyda nhw'r cyfle gorau i lwyddo. Bydd partneriaethau cadarn yn cael eu sefydlu ar draws y system i geisio rhagoriaeth a gwell deilliannau i bob disgybl. Cefnogir ysgolion i fynd i'r afael â thangyflawni a chymryd camau amserol pan fydd pryder ynghylch arweinyddiaeth, cyflawniad ysgol neu ddeilliannau addysgol. Gyda CCD, byddwn ni'n nodi'r arferion mwyaf effeithiol ac yn rhoi mynediad iddyn nhw er mwyn meithrin y gallu i wella trwy'r system. Bydd penaethiaid, llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol a'r holl ymarferwyr yn cael eu cefnogi i wneud cyfraniad llawn a gweithredol at arweinyddiaeth system ac i adeiladu gallu ar gyfer rhoi cymorth ysgol i ysgol ar draws y system.

- Bydd pob disgybl yn cael ei annog, ei herio a'i gefnogi i fod â **dyheadau** uchel a disgwyliadau ohono ei hun. Bydd gan bob plentyn a pherson ifanc yr hawl i gael mynediad at y cyfleoedd a'r cymorth addysgu a dysgu o'r safon uchaf i'w galluogi i gyflawni eu huchelgeisiau a chael y deilliannau gorau posibl. Rhaid canolbwyntio'n ddi-baid ar sicrhau ymgysylltiad, presenoldeb a gwelliant dysgwyr yn y deilliannau sy'n cael eu cyflawni gan bawb: dim ond y lefel uchaf o uchelgais a disgwyliadau fydd yn gwneud y tro. Byddwn ni'n gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd a'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu er mwyn rhoi'r cyfle gorau posibl i blant a phobl ifainc heddiw ac yfory gyflawni llwyddiant ac i ffynnu.

- Mae pob plentyn a pherson ifanc yn wynebu heriau gwahanol ac unigryw a bydd modd iddyn nhw gael y gefnogaeth a/neu'r arweiniad amserol i oresgyn y rhwystrau posibl i ddysgu ac ymgysylltu. Bydd ein hysgolion yn cael eu cynorthwyo i sicrhau eu bod yn hybu **cynhwysiant** ac arferion adferol sy'n cynnig atebion i gynorthwyo disgyblion i oresgyn rhwystrau i ddysgu ac ymgysylltu. Bydd lles a hawliau'r holl ddisgyblion wrth wraidd popeth a wnawn. Bydd eu hawliau'n cael eu parchu a bydd eu barn ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw'n cael gwrandawiad ac yn cael ystyriaeth ddyledus. Bydd pob disgybl yn cael ei ddiogelu rhag niwed a dylai deimlo'n ddiogel yn yr ysgol, yn y cartref ac yn y gymuned. Bydd gan bob disgybl fynediad at gyfleoedd i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg a'i ymwybyddiaeth o'i dreftadaeth ddiwylliannol. Byddwn ni'n croesawu gwahaniaeth ac amrywiaeth ac yn hyrwyddo tegwch mewn ffordd weithredol.

- Rhaid inni sicrhau bod arweinwyr ysgolion a phob partner arall yn rhannu'r gred bod gan bob disgybl hawl i addysg o'r ansawdd uchaf, gan gydnabod bod ei daith trwy'r ysgol yn digwydd unwaith yn unig. Byddwn ni'n buddsoddi yn natblygiad proffesiynol a phersonol ein staff er mwyn cynnal gweithlu medrus a chydnerth iawn sy'n uchelgeisiol ac sy'n ymrwymo i **arloesedd** ac ymarfer creadigol. Bydd pob disgybl yn cael ei addysgu mewn amgylcheddau tawel, pwrpasol a diogel sy'n addas ar gyfer dysgu yn yr 21ain ganrif. Byddwn ni'n cymryd camau cadarnhaol i amddiffyn ein hamgylchedd naturiol a'n hasedau ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Rhaid targedu adnoddau, cymorth a her yn ddeallus a'u rhoi lle mae'r angen mwyaf. Rhaid cael llinellau clir o atebolrwydd a gwerthuso effaith yn drylwyr er mwyn sicrhau gwerth am arian o'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio: rhaid i ni i gyd fod yn atebol am ddefnyddio adnoddau yn llwyddiannus er budd ein cymunedau.

## Adran 10: Sut byddwn ni'n mynd ati i fesur ein llwyddiant ni?

Bydd llwyddiant wrth gyflawni ein blaenoriaethau yn arwain at:

- gweithlu medrus sydd wedi cael ei hyfforddi'n effeithiol gyda'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad angenrheidiol i gyflawni Deddf Cwricwlwm Cymru a Deddf ALNET (2018);
- arweinyddiaeth gadarn ac ymarfer proffesiynol ar draws ein hysgolion gan arwain at well cyrhaeddiad addysgol, presenoldeb, a chyfraddau gwahardd disgyblion, yn enwedig mewn carfannau wedi'u targedu o ddisgyblion difreintiedig ac agored i niwed;
- mwy o degwch rhwng deilliannau disgyblion o deuluoedd sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol a'u cyfoedion mwy cefnog, gan arwain at gulhau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng gwahanol grwpiau o ddisgyblion;
- gwell addysgu a dysgu ar draws ein hysgolion, a chwricwlwm sy'n arloesol ac wedi'i alinio'n gryf â'r meysydd dysgu a phrofiad;
- rhagor o ddisgyblion yn cyflawni eu dyheadau ac yn sicrhau lleoedd mewn addysg bellach, cyflogaeth, hyfforddiant a phrentisiaethau wrth adael yr ysgol;
- gwell cynllunio strategol a darpariaeth ar gyfer ADY ar draws pob ysgol, ysgolion cynhwysol a gwell deilliannau i ddisgyblion;
- gwell lles meddyliol ac emosiynol staff a disgyblion;
- bydd cynnydd da yn cael ei gyflawni ar Fand B o'n Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, gyda datblygiadau sylweddol ar draws ystadau ysgolion;
- bydd ein hysgolion yn gwneud cyfraniad sylweddol a gweithredol tuag at agenda newid hinsawdd y Cyngor;
- bydd rhagor o ddisgyblion yn cyrchu addysg cyfrwng Cymraeg a bydd cynnydd da mewn perthynas â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg;

- rhagor o ddisgyblion a rhieni/gwarcheidwaid yn nodi lefelau uchel o foddhad mewn perthynas â'r addysg sy'n cael ei darparu ar eu cyfer;
- rhagor o randdeiliaid yn gwerthfawrogi'r cymorth arbenigol a ddarperir gan yr awdurdod lleol;
- rhagor o bartneriaid yn cymryd rhan weithredol yn y broses o gyflawni ein cynlluniau strategol, gan weithio ar y cyd er budd ein cymunedau; a
- rhagor o bobl yn manteisio ac yn defnyddio adeiladau ein hysgolion, gyda rhagor o aelodau o'r gymuned yn cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, chwaraeon a gweithgareddau ymgysylltu ag ieuenctid.

## Adran 11: Casgliad

Mae'r pandemig diweddar wedi cyflwyno heriau digynsail i ni i gyd ac rydyn ni i gyd wedi gweithio'n ddiflino i oresgyn y rhain er budd ein disgyblion a'n cymunedau. Wrth inni symud ymlaen i'r cam nesaf o ddiwygio, mae'n hanfodol bod y momentwm yma'n cael ei gynnal a'n bod ni'n gweithio mewn partneriaeth i gyflawni ein cenhadaeth, gweledigaeth a blaenoriaethau ar gyfer gwella ar draws y system addysg. Mae strategaeth glir a chydlynol bellach yn hanfodol ar gyfer sicrhau bod ein disgyblion yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, mynediad at y cymorth cywir ar yr adeg iawn fel eu bod nhw'n dod yn ddysgwyr gydol oes llwyddiannus. Mae'r angen i ymyrryd yn gynnar ac yn effeithiol yn hanfodol fel bod yr anghydraddoldebau a'r anawsterau sydd wedi'u gwaethygu gan y pandemig yn cael eu goresgyn ac fel bod mwy o degwch.

Mae angen i arweinwyr ein hysgolion a'n gweithlu addysg gael mynediad at ddysgu proffesiynol o'r ansawdd uchaf fel bod ein cenhedlaeth nesaf o ddisgyblion yn ennill cymwysterau da a bod ganddyn nhw sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol sydd wedi'u hen sefydlu fel eu bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y byd digidol rydyn ni'n byw ynddo, sy'n gydgysylltiedig ac sy'n newid yn gyflym. Mae'r 22 mis diwethaf wedi dangos i ni fod angen i'n cenhedlaeth bresennol o ddisgyblion a gweithwyr a chenedlaethau sydd i ddod fod yn gydnerth, yn addasadwy ac yn greadigol. Does dim modd i ni fod yn sicr pa heriau byddwn ni'n eu hwynebu trwy gydol cyfnod y cynllun yma. Serch hynny, mae modd inni fod yn hyderus ein bod ni, trwy weithio ar y cyd fel un tîm, yn gryfach ac mewn sefyllfa well i gyflawni ein cenhadaeth ar gyfer tegwch a rhagoriaeth mewn Addysg, gwell lles i bawb a dyfodol gwell a mwy disglair i ddisgyblion a chymunedau.